



ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2022/23

CYNNWYS

01	Yma i chi: Ein rôl	4
	Dathlu 75 mlynedd o arwain ar gymwysterau ac asesiadau dwyieithog	4
02	Cyflwyno cymwysterau, asesiadau a chefnogaeth blaenllaw	6
	Arwain Cymru i'r dyfodol gyda chymwysterau amrywiol ac sy'n ennyn diddordeb	8
	Arwain y ffordd o ran asesiadau digidol	10
03	Llunio dyfodol addysg yng Nghymru	12
	Cefnogi eich taith: Paratoi i addysgu'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch newydd	14
04	Gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth	16
	Buddsoddi yn y Dyfodol: Cyhoeddi'r myfyrwyr a dderbyniodd Gynllun Bwrsari Gareth Pierce 2022	18
	Grymuso athrawon a dysgwyr: Ymweld ag ysgolion a cholegau i feithrin perthasoedd	20
	Gwella Deilliannau Dysgu: Adnoddau addysgol ar gyfer dysgwyr heddiw ac yfory	22
05	Dathlu'r genhedlaeth newydd o Arloeswyr	24
	Arddangos talent Cymru: Gwobrau Arloesedd	26
06	Buddsoddi yn ein planed	28
	Gwneud newidiadau i ysgogi dyfodol mwy cynaliadwy	30



Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC

Eleni yw achlysur 75 mlwyddiant CBAC, carreg filltir sylweddol sy'n dystiolaeth o waith caled ac ymroddiad ein timau. Dros y blynyddoedd, rydym wedi aros yn drwm i'n gweledigaeth, gan ddarparu cymwysterau dwyieithog a chefnogaeth flaenllaw yn y diwydiant i ysgolion a cholegau ar draws Cymru.

Yn yr Adolygiad Blynyddol eleni, mae prawf o'r gwaith eithriadol a gyflawnir gan ein timau ymroddedig, o ddatblygu cymwysterau ac asesiadau digidol cyffrous i ddatlu cyflawniadau dysgwyr yn rhan o'n Gwobrau Arloesedd. Drwy gydweithio â'r gymuned addysgu, mae ein timau'n parhau i fod yn ymroddedig i alluogi athrawon a darlithwyr i gyflwyno ein cymwysterau'n hyderus, gan ddatgloi potensial llawn dysgwyr ar draws y wlad.

Gan edrych i'r dyfodol ac i gefnogi Cymwys ar gyfer y Dyfodol, rydym eisoes wedi dechrau gweithio i ddatblygu ystod gyffrous o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig a wnaed ar gyfer Cymru. Wrth i ni ddatblygu'r cymwysterau newydd hyn, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio dull cyd-awduro drwy ymgysylltu ag athrawon/darlithwyr ac aelodau allweddol o'r cymunedau addysgol i sicrhau bod y cymwysterau newydd, o fewn cyfyngiadau fframwaith y rheoleiddwyr, yn cefnogi uchelgeisiau y Cwricwlwm i Gymru.

Fel corff sy'n ymroddedig i gefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru, rydym yn deall arwyddocâd darparu adnoddau dwyieithog rhad ac am ddim i athrawon, darlithwyr a dysgwyr. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi manteisio ar y cyfle hwn i gynnig golwg fanwl i chi ar y tîm Adnoddau a'r broses maen nhw'n ei dilyn i gomisiynu'r deunyddiau gwerthfawr hyn.

Rwyf wedi cael y pleser o ymweld â nifer o ysgolion a cholegau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan siarad â staff a dysgwyr, ac rwyf wedi fy syfrdanu gan y croeso a gefais. Hoffwn gymryd y cyfle felly i ddiolch i'n hysgolion, colegau, rhanddeiliaid a fy nghydweithwyr yn CBAC am eu cefnogaeth amhrisiadwy a'u gwaith caled.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ein hadolygiad blynyddol ac y byddwch yn parhau i ddilyn ac yn ymgysylltu â'n gwaith dros y flwyddyn i ddod. Gallwn sicrhau y byddwch yn parhau i dderbyn y lefelau uchaf un o gefnogaeth, cyngor, ac arweiniad gennym – fel rydych chi'n ei ddisgwyl bellach.



Joanna Moonan
Cadeirydd
Bwrdd y Cyfarwyddwyr, CBAC

Ar ôl blwyddyn academiaidd lwyddiannus arall, mae CBAC wedi parhau i arwain y ffordd o ran darparu cefnogaeth ragorol i ysgolion a cholegau ledled Cymru, gan sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at y cymwysterau y mae eu hangen arnyn nhw er mwyn cyflawni eu dyheadau. Drwy weithio'n agos â'r gymuned addysg, mae CBAC wedi cadarnhau ei safle fel partner dibynadwy o ran darparu cymwysterau o ansawdd uchel.

Mae ein timau ymroddedig eisoes wedi dechrau paratodau i gyflwyno dull o gyd-awduro i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig. Fel Bwrdd y Cyfarwyddwyr, rydym yn hyderus iawn o allu CBAC i gydweithio'n agos â'r gymuned addysg a thu hwnt i greu'r cymwysterau hyn sydd wedi'u teilwra ar gyfer Cymru a'i dysgwyr.

Mae'r Adolygiad Blynyddol eleni yn dystiolaeth o barodrwydd CBAC i wrando ac i gydweithio, yn ogystal â'i ymroddiad i gyflwyno cymwysterau a chefnogaeth o ansawdd uchel. Ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr, hoffwn ddiolch o galon i'r ysgolion, y colegau a chydweithwyr CBAC am eu holl waith caled ac ymrwymiad yn ystod y flwyddyn. Gyda CBAC yn arwain, does dim amheuaeth bod dyfodol addysg Cymru yn fwy disglair nag erioed.

Dathlu 75 mlynedd o arwain ar gymwysterau ac asesiadau dwyieithog

Eleni yw achlysur ein 75 mlyneddiant, ac fel y corff dyfarnu blaenllaw yng Nghymru, rydym yn falch o barhau â'n traddodiad o gefnogi ysgolion a cholegau, gan ddarparu cymwysterau dwyieithog o'r radd flaenaf ac asesiadau dibynadwy i ddysgwyr ac addysgwyr ar draws y wlad.

Mae ein timau'n parhau i fod wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaethau agos â rhanddeiliaid ar draws ein cymunedau addysg, gan gynnwys ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, a Cymwysterau Cymru, er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflwyno dull arloesol o ymdrin â dysgwyr sy'n addas ar gyfer y dyfodol.



Yng Nghymru

Rydym yn cynnig dros **200** o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Galwedigaethol



Dyfarwyd dros

440,000

o gymwysterau yn 2022/23



40

Trefnwyr
Gwybodaeth

Dros **240** o Unedau Dysgu Cyfunol - sy'n cynnwys tua **1,400** o wersi

Marcwyd dros

1,200,000

o bapurau, asesiadau di-arholiad ac arholiadau llafar yn 2022/23

Cymwysterau wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr Cymru

Rydym yn fach o gynnig cymwysterau a gydnabyddir yn rhyngwladol, wedi'u cynllunio i alluogi i ddysgwyr Cymru ddangos yr hyn maen nhw'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mae pob cymhwyster wedi'i gynllunio'n ofalus gyda dysgwyr mewn golwg, i roi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen arnyn nhw i symud ymlaen, pa bynnag lwybr maen nhw'n dewis ei ddilyn.

Cefnogaeth ac arweiniad uniongyrchol o'r diwrnod cyntaf

Mae cefnogi athrawon a darlithwyr ar draws Cymru wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ein tîm o dros 350 o unigolion medrus a gwybodus yn darparu cefnogaeth, arweiniad a chynghor uniongyrchol i ysgolion a cholegau. Yn wahanol i unrhyw gorff dyfarnu arall, rydym yn ymfalchïo mewn darparu mynediad uniongyrchol at arbenigwyr pwnc a thimau cefnogi sy'n cynnig cynghor ac arweiniad ymarferol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein cymwysterau.

Gwella addysgu gydag adnoddau rhad ac am ddim

Mae ein pecyn adnoddau sy'n tyfu o hyd wedi esblygu'n barhaus i fodloni anghenion dysgwyr, sy'n newid drwy'r amser. Rydym yn cyfathrebu ac yn cydweithio ag athrawon a darlithwyr i sicrhau bod ein hadnoddau addysgu a dysgu RHAD AC AM DDIM yn datblygu'r holl sgiliau sy'n angenrheidiol ac yn parhau i ennyn diddordeb ac ysbrydoli dysgwyr.

Wrth i ni ddathlu 75 mlynedd yn CBAC, mae ein hymrwymiad i gefnogi addysg yng Nghymru yn parhau i fod wrth wraidd ein cenhadaeth. Gyda'n gilydd a gyda'n cymunedau addysg, byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cyflawni ei llawn botensial.



ADRAN 02

Cyflwyno cymwysterau, asesiadau a chefnogaeth blaenllaw





Ysgrifennwyd gan
Richard Harry

Cyfarwyddwr Cymwysterau
ac Asesu, CBAC

Arwain Cymru i'r dyfodol gyda chymwysterau amrywiol ac sy'n ennyn diddordeb

Mae Richard Harry, ein Cyfarwyddwr Cymwysterau ac Asesu, yn arwain y broses o ddatblygu cyfres newydd sbon o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig yn rhan o broject 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' Cymwysterau Cymru.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod cyffrous iawn i ni wrth i ni ddechrau'r gwaith o greu cyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig dwyieithog yn rhan o broject 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' Cymwysterau Cymru.

Rydym wedi chwarae rhan fawr a gweithredol yn yr holl broses ymgynghori a nawr rydym yn arwain ar y broses o ddatblygu'r cymwysterau newydd hyn.

Wrth i ni gychwyn ar y daith drawsnewidiol hon, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wrando gweithredol, myfyrio'n barhaus ac ymateb i adborth gwerthfawr. Ein nod yw datblygu cymwysterau sy'n gynhwysol, sy'n ennyn diddordeb, yn cefnogi'r cwricwlwm ac sydd wir yn addas ar gyfer y dyfodol.

Y camau nesaf

Mae'r cam datblygu wedi hen ddechrau ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos gyda'n grwpiau cynghori ar ddatblygu cymwysterau yn rhan o ymgynghoriad ar amlinelliadau'r cymwysterau, sy'n cael ei gynnal yr hydref hwn, cyn i amlinelliadau'r cymwysterau gael eu cyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Rydym ni'n angerddol iawn am symud yr ethos o gyd-awduro ymlaen. Cafodd y Cwricwlwm i Gymru ei gyd-awduro, yn ogystal â'r penderfyniadau ynghylch sut dylai'r cymwysterau edrych o safbwynt rheoleiddiol. Nawr, rydym yn cyd-awduro'r cymwysterau.

Cydweithio yw'r gair allweddol yma, ac rydym yn gweithio i greu cymwysterau y gallai'r sector addysg cyfan ymddiried ynddyn nhw, gan ddysgu o unrhyw wersi yn y gorffennol a chreu cymwysterau sy'n ymgorffori gwerthoedd a dyheadau cyffredin y sector cyfan.

Gweithio gyda rhanddeiliaid

O'r eiliad y cyhoeddwyd canfyddiadau ymgynghoriad Cymwysterau Cymru, aethom ati i ymgysylltu â thrawstoriad o rhanddeiliaid.

Rydym bellach wedi recriwtio ysgrifenywyr cymwysterau, adolygwyr cymwysterau ac aelodau ar gyfer ein grwpiau cynghori ar ddatblygu ar lefel pynciol.

Rydym hefyd yn ymgysylltu ag undebau drwy grŵp cyfeirio ar wahân, gan ystyried barn ehangach y gweithlu. Yn ogystal, rydym wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid sy'n cynnwys aelodau allweddol o'n cymunedau addysg.

Mae barn ein dysgwyr yn hynod bwysig yn ystod y broses hon, a byddwn yn gwrandao ar eu safbwyntiau a'u hadborth drwy ein Grŵp Cynghori Dysgwyr hefyd.

Cefnogi uchelgeisiau dysgwyr

Fel corff sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr, rydym yn falch iawn o weld ystod ehangach o gymwysterau TGAU nag yr ydym wedi'i chael o'r blaen, ac rwy'n hyderus y bydd pynciau newydd fel Astudiaethau Cymdeithasol, Dawns ac Iaith Arwyddion Prydain yn grymuso dysgwyr gydag addysg fwy cynhwysfawr a chyfannol.

Bwriad y cwricwlwm newydd yw gwella dysgu a phrofiad y dysgwyr, drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Rôl y cymhwyster yw cefnogi hynny, felly drwy gynnig ystod ehangach o bynciau, rydym yn galluogi dysgwyr i ddilyn eu diddordebau a'r hyn maen nhw'n angerddol drosto, ac i wneud cynnydd.

O ran dulliau asesu, ac yn unol â chanfyddiadau ymgynghoriad Cymwysterau Cymru, byddwn yn cynyddu nifer yr asesiadau di-arholiad y byddwn yn eu cynnig. Y nod yw sicrhau bod ein hasesiadau'n ennyn diddordeb dysgwyr.

Rydym yn gweithio'n agos gyda dysgwyr ac athrawon yn y cyfnod cychwynnol hwn i sicrhau bod y cynnydd mewn asesiadau di-arholiad mor hylaw â phosibl, o ran llesiant dysgwyr yn ogystal â llwyth gwaith athrawon. Rydym yn gwerthfawrogi eu mewnbwn a'u hadborth a bydd yn allweddol wrth lunio amlinelliadau'r cymwysterau a'r hyn y byddwn yn ei ddarparu yn y pen draw.

Cynaliadwyedd ac amrywiaeth

Mae cynaliadwyedd, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn yn themâu trawsgwricwlaidd yn y Cwricwlwm i Gymru a dyma'r ystyriaethau craidd y byddwn yn eu hymgorffori ym mhob cymhwyster.

Rydym hefyd yn ymgysylltu'n weithredol ag arbenigwyr amrywiaeth a rhaglenni megis Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL), ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein cymwysterau wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol ac yn gynrychiadol o bob dysgwr.

Gyda meddyliau agored ac ysbryd cydweithredol, edrychwn ymlaen at greu cymwysterau ar y cyd a fydd, nid yn unig cefnogi dysgwyr â'u huchelgeisiau unigol, ond hefyd yn cyfrannu at gynnydd addysg yn rhan o bolisi Cenhadaeth Ein Cenedl Llywodraeth Cymru.

Drwy gynnwys addysgwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid yn y broses gynllunio, ein nod yw sicrhau bod y cymwysterau hyn yn cyd-fynd ag anghenion ein cymdeithas amrywiol a dynamig sy'n esblygu'n barhaus. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at barhau â'r daith.

Cefnogi athrawon

Yn unol ag ymgysylltu ag athrawon o ran y cynnydd mewn asesiadau di-arholiad, rydym hefyd yn canolbwyntio'n fawr ar roi rhaglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol at ei gilydd, i'w harwain drwy'r cymwysterau newydd.

Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i benderfynu beth yn union fydd hynny'n ei olygu, ond ein nod yw sicrhau bod gan bob athro/darlithydd fynediad at ddysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i deimlo'n hyderus wrth gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn.

Byddwn hefyd yn darparu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi athrawon a dysgwyr. Mae ein Tîm Adnoddau yn cynhyrchu tua 3000 o wersi a chymhorthion adolygu dwyieithog bob blwyddyn, gan gynnwys Trefnwyr Gwybodaeth, adnoddau a gwrslyfrau Dysgu Cyfunol i ddysgwyr, yn ogystal ag adnoddau ar gyfer yr ystafell ddisbarth annibynnol i gefnogi athrawon.

I gefnogi'r gyfres newydd hon o gymwysterau, byddwn yn edrych yn fanwl ar ba adnoddau ychwanegol y gallwn eu darparu fel ein bod yn rhoi'r gefnogaeth orau phosibl i athrawon a dysgwyr.

Arwain y ffordd o ran asesiadau digidol



Ysgrifennwyd gan Ben Newby
Prif Swyddog Digidol, CBAC

Mae Ben Newby yn archwilio datblygiad asesiadau digidol, yn enwedig mewn perthynas â phroject 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' Cymwysterau Cymru, a sut gallwn ddefnyddio offer digidol i wella canlyniadau i'n dysgwyr.

Mae'r byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym ac mae fy nhîm yn edrych yn agos ar sut rydym yn adlewyrchu'r newidiadau hynny yn y ffordd rydym yn croesawu technoleg yn y gofod asesu.

Rydym wedi bod yn cynnig arholiadau ar-sgrin ers pymtheg mlynedd ac rydym yn falch iawn o'r gallu a'r profiad hwn. Rydym wedi ymrwmo i barhau i ddarparu asesiadau sy'n ennyn diddordeb, yn darparu profiad cyfoethocach i ddysgwyr ac yn goresgyn heriau cymdeithasol a ffisegol. Mae asesiadau digidol yn rhan fawr o hyn.

Ein darpariaeth bresennol o asesiadau digidol

Rydym yn cynnig dau fath o asesiadau digidol: E-asesiadau, sef arholiadau sy'n cael eu cwblhau a'u marcio'n electronig ac ar sgrin, ac e-gyflwyniadau, lle mae gwaith cwrs dysgwr yn cael ei gyflwyno'n electronig a'i asesu drwy blatfform diogel ar y we. Yr haf hwn, safodd dros 12,000 o ymgeiswyr e-asesiadau ar draws cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Mewn un pwnc yn unig, Technoleg Ddigidol, roedd dros 5,000 o ymgeiswyr ar un tro. Rydym hefyd yn asesu dros 200,000 darn o waith cwrs digidol bob blwyddyn.

Gan weithio gyda chonsortium o ddarparwyr technoleg, ymgynghorwyr ac arbenigwyr mewn dylunio asesiadau, rydym yn falch o gynnig e-asesiadau personol hefyd. Mae'r rhain yn helpu i ddeall cynnydd dysgwyr wrth ddarllen ac ysgrifennu yn ystod eu taith yn yr ysgol uwchradd. Mae Cymru wir yn arwain y ffordd yn hynny o beth.

Fel gydag unrhyw fath o arholiad, mae hygyrchedd i ddysgwyr wedi bod yn ystyriaeth allweddol, a bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Mae ein e-asesiadau'n cynnwys nifer o addasiadau, gan gynnwys amrywiaeth o baletau lliw, meintiau ffontiau ac opsiynau sain.

Datblygu'r ddarpariaeth

Mae project 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' Cymwysterau Cymru yn gyfle enfawr i ni ganiatáu i hyd yn oed mwy o ddysgwyr, ysgolion a cholegau brofi holl fanteision e-asesiadau, gan esblygu ar gyflymder lle bydd modd i'r system ei chefnogi.

Mae dysgwyr eisoes wedi arfer ag amgylchedd lle mae addysgu a dysgu yn cael eu gwneud mewn llawer o fformatau digidol, ac felly mae'n gwneud synnwyr llwyr ein bod, fel bwrdd arholi, yn adlewyrchu'r byd addysg hwn sy'n parhau i newid.

O ran graddfa, ar hyn o bryd mae opsiwn e-asesu ar gael i 80% o'n cymwysterau galwedigaethol a 15% o'n cymwysterau TGAU. Ar gyfer TGAU, o'r 15% hynny, mae tua 3% yn cael eu gwneud ar-lein ar hyn o bryd. Drwy gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn, rydym yn disgwyl i'r nifer hwnnw godi i thua 25% yng Nghymru.

Mae'r dechnoleg a'r gallu eisoes yn bodoli, y cwestiwn felly yw pa mor gyflym gallwn weithredu'r newid hwnnw, gan sicrhau uniondeb a chadernid ar bob cam. Yn y cefndir, rydym yn ailddatblygu ein systemau i fod yn fwy sythweledol a byddwn yn cynyddu maint ein tîm er mwyn helpu i gefnogi dysgwyr, ysgolion a cholegau yn ystod y cyfnod hwn o dwf. Byddwn yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid ar bob cam o'r ffordd.

Yn rhan o'n gwaith i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', byddwn yn casglu safbwyntiau ar asesiadau digidol gan ddysgwyr, athrawon, darlithwyr ac arweinwyr busnes i arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr cynhwysiant ac amrywiaeth.

Cefnogi ein hysgolion a'n colegau

Rydym yn ymwybodol bod galluoedd gwahanol o ran technoleg ac adnoddau gan bob ysgol a choleg, ac rydym yn datblygu ein datrysiadau yn unol â hynny.

Mae gennym dîm cefnogi dwyieithog pwrpasol sy'n canolbwyntio'n llwyr ar e-asesu. Maen nhw yno i helpu bob ysgol a choleg wrth iddyn nhw gychwyn neu barhau ar eu taith e-asesu, yn ogystal â'u cefnogi gydag unrhyw ymholiadau ar hyd y ffordd.

Mae athrawon, darlithwyr a dysgwyr yn cael mynediad at ein plattform ar sgrin ymhell ymlaen llaw, fel y gallan nhw ymglyfarwyddo â'r feddalwedd. Rydym hefyd yn darparu dogfennau canllaw helaeth a pheccynnau cymorth fideo i gynorthwyo ymhellach â'r broses o osod a chyflwyno e-asesiadau. Ein hadborth parhaus gan ysgolion a cholegau yw eu bod yn synnu pa mor hawdd yw'r broses ar gyfer gweinyddu e-asesiadau, ac rydym yn falch iawn o hynny ond byddwn yn parhau i fuddsoddi i wneud ein systemau'n haws i'w defnyddio.

Edrych tua'r dyfodol

Mae 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' yn gyfle enfawr i ni yng Nghymru. Mae'r cydbwysedd yn iawn o ran symud ymlaen gydag asesu digidol, ond mewn ffordd reoledig ac wedi'i diogelu rhag risgiau. Erbyn diwedd 2030, bydd yn gyflawniad enfawr cael chwarter yr holl asesiadau TGAU wedi'u cwblhau'n ddigidol a bydd yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir tuag at ddyfodol asesu.

Mae cymaint o fanteision i ddysgwyr, athrawon, darlithwyr a gweinyddwyr o ran asesu digidol, ac rwy'n edrych ymlaen at wireddu'r rheini wrth i ni barhau ar y daith hon.

ADRAN 03

Llunio Dyfodol Addysg yng Nghymru



Cefnogi eich taith

Paratoi i addysgu'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch newydd



Sharon Giddy
Arweinydd
Cwricwlwm ar gyfer
TGCh a Bagloriaeth
Cymru, Ysgol Cas-
gwent

Fis Medi, dechreuodd ysgolion a cholegau ar draws Cymru gyflwyno ein cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Mae'r cymhwyster newydd hwn yn cynnig dull unigryw ac arloesol o ddysgu, gan bwysleisio ar sgiliau allweddol trosglwyddadwy a pharatoi dysgwyr ar gyfer gofynion marchnad swyddi sy'n datblygu'n gyflym. Er mwyn cael cipolwg ar yr hyfforddiant a'r adnoddau a ddarparwyd gennym i gefnogi'r broses o'i roi ar waith, buom yn siarad â Sharon Giddy, Arweinydd Cwricwlwm ar gyfer TGCh a Bagloriaeth Cymru yn Ysgol Cas-gwent.

Cyfathrebu wedi'i deilwra: Uniongyrchol, hwylus a chyfredol

Mae'r Tîm Cefnogi Rhanbarthol yn CBAC wedi cynnig hyfforddiant, cyfathrebu ac arweiniad pwrpasol ac amserol i ni, gan gefnogi'r cyfnod o newid i gyflwyno'r cymhwyster newydd. Mae cael mynediad at ein Swyddog Cefnogaeth Rhanbarthol ein hunain wedi bod yn allweddol yn y paratodau ar gyfer y cymhwyster newydd a chyffrous hwn.

Fel rhan o'r gefnogaeth barhaus hon, gwahoddwyd pob ysgol a choleg i fynychu cyfres o fforymau a gynhelir gan CBAC. Roedd y rhain yn cynnig cyfleoedd ar gyfer trafod y broses o gynllunio a chyflwyno'r cymhwyster gyda chydlynwyr o ganolfannau ar draws Cymru, gan ein galluogi i rannu syniadau a dulliau.

Yn ogystal, mynychodd Swyddog Cefnogaeth Rhanbarthol CBAC gyfarfodydd rhwydweithio rhanbarthol ar gyfer ysgolion Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai a oedd yn bresennol am adnoddau, cyfleoedd hyfforddiant ac unrhyw gefnogaeth arall sydd ar gael.

Dysgu Proffesiynol Pwrpasol: Gwella gwybodaeth a chydweithio

Rhoddodd y digwyddiad Dysgu Proffesiynol, dan arweiniad Swyddog Pwnc CBAC, fewnwelediad allweddol i ofynion y cymhwyster newydd, gan ganiatáu amser ar gyfer cydweithio a rhannu syniadau gyda chydweithwyr o ysgolion a cholegau eraill.

Rhoddodd gyfle hefyd i ofyn cwestiynau a chafwyd manylion am strwythur y cwrs a'r deunyddiau oedd yn cael eu paratoi i gefnogi'r broses o symud oddi wrth y cymhwyster presennol i'r cymhwyster newydd. Roedd yn fuddiol iawn cyfathrebu â chydlynwyr eraill a gweld wynebau cyfarwydd o'r tîm i roi hyder ein bod mewn dwylo diogel.

Yn ogystal, cafwyd cyfleoedd pellach i gymryd rhan mewn diwrnodau cynllunio gyda chonsortia rhanbarthol ledled Cymru. Yn Ysgol Cas-gwent, arweiniais sesiwn ar ran y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Roedd y sesiynau'n gyfle i ysgolion a cholegau greu adnoddau sy'n cyd-fynd â'u modelau nhw, i fagu hyder athrawon ac i hyrwyddo cysondeb ar draws ysgolion.



Dewch i wybod mwy:

www.cbac.co.uk/BSCUwch



Cefnogi addysgu a dysgu gydag adnoddau wedi'u teilwra

Mae'r adnoddau a gynhrychir i gefnogi datblygiad sgiliau a hyrwyddo'r cymhwyster yn rhagorol. I gefnogi wrth eu defnyddio, darparodd y Tîm Cefnogaeth Rhanbarthol gyfres o sesiynau 'Paratoi i Addysgu'. Yn ystod y sesiynau ar-lein hyn, dangoswyd yr adnoddau a rhoddwyd enghreifftiau ar sut y gellid eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ac i hwyluso dysgu annibynnol.

Hefyd, croesawyd y fideo hyrwyddo a deunyddiau'r noson agored, ac roedd y deunyddiau sefydlu'n golygu nad oedd angen i ni greu adnoddau newydd dros yr haf. Fel cydlynnydd, rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth y tîm ac rwy'n hyderus ein bod yn barod amdani.

Roedd cydweithio ag athrawon a darlithwyr eraill o ysgolion a cholegau eraill a chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu adnoddau'r cymhwyster newydd yn brofiadau plerusus a oedd yn magu hyder. Drwy gydweithio â CBAC, datblygwyd cyfres newydd o ddeunyddiau cefnogi defnyddiol a fydd o gymorth wrth gyflwyno'r cymhwyster a bydd yn rhoi'r sgiliau hanfodol i ddysgwyr y mae cyflogwyr yn gofyn amdany'n nhw.

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth unigryw a chyson gan dîm CBAC, ac mae eu hadnoddau yn fy ysbrydoli i ennyn diddordeb ac ysgogi fy nysgwyr i lwyddo.

Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Tîm Cefnogaeth Rhanbarthol yn CBAC wedi bod yn rhagorol.

Mae eu cyfoeth o wybodaeth a phrofiad wedi rhoi'r hyder i mi gyflwyno'r cymhwyster.

Dewch i wybod mwy: www.cbac.co.uk/BSCUwch

ADRAN 04

Gweithio
gyda'n gilydd
i wneud
gwahaniaeth



Buddsoddi yn y Dyfodol

Cyhoeddi'r myfyrwyr a dderbyniodd Gynllun Bwrsari Gareth Pierce 2022

Lansiwyd Cynllun Bwrsari Gareth
Pierce yn 2022 er cof am ein
diweddar Brif Weithredwr.



Cynlluniwyd y fenter nodedig hon i gefnogi hyd at 3 myfyriwr israddedig sy'n astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn ceisio hyrwyddo rhagoriaeth academiaidd ac mae'n darparu cymorth o £3,000 i fathemategwyr Cymraeg eu hiaith sy'n astudio o leiaf 33% o'u cwrs gradd Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fis Ionawr eleni, cyhoeddwyd y myfyrwyr cyntaf i ennill Cynllun Bwrsari Gareth Pierce. Lowri Haf Davies a Taylor-James Daughton, myfyrwyr israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Alys Ffion Chisholm, myfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r bwrsari yn cydnabod rhagoriaeth academiaidd a chyflawniad y myfyrwyr hyn ac yn nodi carreg filltir bwysig wrth hyrwyddo addysg cyfrwng y Gymraeg mewn Mathemateg. Mae'r myfyrwyr wedi profi eu bod yn fyfyrwyr rhagorol yn eu meysydd ac maen nhw wedi arddangos y cymhelliant a'r ymroddiad sy'n angenrheidiol i ragori yn eu hastudiaethau.



Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r bwrsari, ac rwy'n ddiolchgar i CBAC am y gydnabyddiaeth a'r arian. Rwy'n falch fy mod i'n gallu astudio Mathemateg, sy'n bwnc mor ddefnyddiol, cyfredol a diddorol, drwy gyfrwng fy mamiaith. Edrychaf ymlaen at weithio fel athro yn y dyfodol i rannu fy mrwdfrydedd dros Fathemateg ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddewis astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.



Alys Chisholm
o Gaernarfon

Grymuso athrawon a dysgwyr

Ymweld ag ysgolion a cholegau i feithrin perthnasoedd

Fel rhan o'n hymrwymiad i ymgysylltu ag ysgolion a cholegau ac er mwyn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phrifathrawon, athrawon/darlithwyr a dysgwyr yn uniongyrchol, rydym wedi parhau i ymweld â chanolfannau ledled Cymru yn ystod y flwyddyn academiaidd hon. Mae'r ymweliadau hyn wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i ni o feysydd lle gallwn wella addysgu a dysgu ac maen nhw wedi'n helpu i nodi cyfleoedd newydd i barhau i'w cefnogi.

Eleni rydym wedi ymweld â sawl canolfan o amgylch Cymru, gan gynnwys: Ysgol Gyfun Plasmawr yng Nghaerdydd, Ysgol John Bright yn Llandudno, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yng Nghoed Duon, Ysgol Bro Teifi yn Llandysul, ac Ysgol Gyfun Llangynwyd ym Mhen-y-bont.



Pwysigrwydd yr ymweliadau hyn ar ein taith o ddatblygu cymwysterau newydd

Mae'r ymweliadau hyn ag ysgolion wedi bod yn brofiadau hynod gadarnhaol. Maen nhw wedi ein helpu i nodi meysydd lle gallwn wneud mwy i gefnogi ysgolion/colegau a dysgwyr yng Nghymru. Bydd cydweithio a pherthnasoedd gwaith agos hefyd yn allweddol i lwyddiant ein rôl yn 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol'.

Mae'n bwysig bod deialog, adborth a thrafodaeth agored yn llywio pob cam o'r broses datblygu cymwysterau, ac wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein hymgysylltiad ag ysgolion ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phrifathrawon, athrawon/darlithwyr a dysgwyr i sicrhau bod ein hasesiadau a'n cymwysterau yn deg, yn hygyrch ac yn bodloni anghenion dysgwyr Cymru.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'r gymuned addysg ledled Cymru i glywed eu barn ac i ddysgu mwy am eu profiadau.



“

Credaf bod gweithio'n agos gyda'r gymuned addysg yn hanfodol i ddeall anghenion ein rhanddeiliaid.

Drwy gydweithio ac adborth parhaus, rydym yn cael mewnwelediadau amhrisiadwy sy'n llywio ein gwaith ac yn ein galluogi i gyflwyno'r safonau uchaf mewn cymwysterau ac asesiadau.

Wrth symud ymlaen, mae ein partneriaeth gref ag addysgwyr yn gwbl allweddol i'n llwyddiant parhaus wrth greu profiadau addysgu a dysgu effeithiol ac ystyrlon.

”

Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC



“

Roedd ymweliad Ian Morgan yn brofiad gwerthfawr i ddysgwyr, athrawon ac arweinwyr, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer trafodaethau adeiladol ac agored.

”

Lloyd Mahoney
Pennaeth Cynorthwyol,
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Gwella Deilliannau Dysgu: Adnoddau addysgol ar gyfer dysgwyr heddiw ac yfory



**Ysgrifennwyd gan
Melanie Blount**

**Pennaeth Datblygu
Cynnwys, CBAC**

Mae Melanie Blount, ein Pennaeth Datblygu Cynnwys, yn arwain tîm o 25 o gydweithwyr, gan greu adnoddau addysgol ar gyfer athrawon, darlithwyr a dysgwyr sy'n cefnogi addysgu a dysgu'n fawr iawn ar draws y cwricwlwm.

Yn yr erthygl hon, mae'n trafod y broses o ddatblygu ein hadnoddau a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu.

Mae pob adnodd yn bodoli gan fod galw wedi bod amdano. Drwy drafod ag athrawon, bod yn ymwybodol o newyddion addysgol a pholisïau newydd, ystyried adborth am arholiadau ac hyd yn oed drwy bori drwy'r cyfryngau cymdeithasol, mae ein tîm bob amser yn mesur lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer pob pwnc.

Unwaith y byddwn wedi sefydlu bod galw am adnodd, yna rydym yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gyflwyno'r adnodd hwnnw, boed yn werslyfr neu'n adnodd digidol neu'n adnodd rhyngweithiol. Efallai y byddwn yn gwneud y penderfyniad hwn ar sail degawdau o'n harbenigedd ein hunain, adborth gan ein canolfannau, neu weithiau gallai fod yn gais uniongyrchol gan ein rhanddeiliaid, megis Llywodraeth Cymru neu Cymwysterau Cymru.

Rydym yn gweithio gyda Swyddog Pwnc ac arbenigwr deunydd pwnc ar gyfer pob adnodd. Bydd un ohonynt yn awduro'r cynnwys a'r llall yn adolygu. Mae'r perthnasoedd hyn yn hynod o bwysig, ac mae ein Swyddogion Pwnc yn chwarae rhag gwbl hanfodol yn y broses o greu ein llu o adnoddau.

Ar ôl drafftio, mae pob adnodd yn mynd drwy broses adolygu drylwyr sy'n cynnwys ein Swyddogion Dysgu Digidol (DLO), golygyddion digidol a'r tîm sicrhau ansawdd. Ar gyfer adnodd print, bydd golygiad technegol yn cael ei wneud, ac ar gyfer adnodd digidol, bydd ein Swyddogion Dysgu Digidol yn creu bwrdd stori er mwyn i'n datblygwyr ei drawsffurfio'n gynnyrch gorffenedig rhyngweithiol.

Ar gyfer pob darn o gynnwys a gynhyrchir, bydd yr awdur yn dilyn briff penodol iawn sy'n nodi'n union beth sydd angen ei gynnwys o'r fanyleb, pa grŵp oedran sy'n cael ei dargedu a pha elfennau y mae'n rhaid eu cynnwys, megis rhestr termau, blychau allweddair, astudiaethau achos ac ati.

Gan ein bod yn fwrdd arholi dwyieithog, mae ein holl gynnwys yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan arbenigwyr allanol, ac mae'r fersiwn hwn yn mynd drwy union yr un broses olygu i sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei gollu yn y broses gyfieithu a bod y ddau fersiwn yn cyfleu'r un neges.

Dim ond unwaith y byddwn yn fodlon bod y canlyniad gorffenedig yn cyfateb i'r briff gwreiddiol y bydd uwch aelod o'r tîm yn cwblhau gwiriad terfynol ac yn cymeradwyo. Ar gyfartaledd, mae cyfnod o 9 mis rhwng adeg comisynu adnodd digidol a'i gyhoeddi. Mae gwerslyfr fel arfer yn cymryd 18 mis.

Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid

Fel bwrdd arholi, rydym yn gweithio'n agos ofnadwy â'n rhanddeiliaid, yn enwedig Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, ym mhob lefel o'n gwaith, ac nid oes unrhyw beth yn wahanol o ran ein hadnoddau.

Mae rheoliadau'n nodi bod angen i fyrddau arholi ddarparu manyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol a chanllawiau arholiadau o leiaf, ond rydym yn hynod falch bod yr hyn a ddarparwn yn mynd ymhell y tu hwnt i hynny.

Dyfodol adnoddau

Heb os, bydd technoleg a datblygiadau digidol yn dylanwadu'n gryf ar adnoddau addysgol. Fel tîm, rydym yn canolbwyntio ar y ffyrdd y gallwn groesawu technoleg sy'n esblygu a sut gallwn ddefnyddio hynny i wella dysgu.

Mae adnoddau addysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda yn gwella'r profiad dysgu drwy gynnig esboniadau, enghreifftiau a chymhorthion gweledol amgen sy'n darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu, gan wneud testunau cymhleth yn haws eu deall.



Ein hadnoddau

Mewn blwyddyn academaidd arferol, rydym yn cynhyrchu 3000 o gymhorthion gwersi ac adolygu dwyieithog.

Mae'r rhain yn gallu bod ar ffurf:

Adnoddau Dysgu Cyfunol

Fel arfer ar ffurf pecyn dysgu ar-lein sy'n caniatáu i ddysgwyr ddysgu ar eu liwt eu hunain.

Trefnwyr Gwybodaeth

Mae'r rhain yn rhoi trosolwg o'r ffeithiau, cysyniadau a'r eirfa allweddol sy'n gysylltiedig â phwnc, uned neu wers benodol.

Adnoddau ystafell ddosbarth annibynnol ar gyfer athrawon

Megis nodiadau PDF, cynlluniau gwersi a chynlluniau dysgu.

Gwerslyfrau

Cyhoeddir tua 5 bob blwyddyn.

Yn ogystal ag adnoddau dysgu, mae ein tîm hefyd yn gyfrifol am:

Adolygu Arholiadau Ar-lein

Unedau rhyngweithiol sy'n dod ag elfennau at ei gilydd gan gynnwys data cyffredinol, cwestiynau arholiadau, eu cynlluniau marcio a sylwadau arholwyr.

Banc Cwestiynau

Adnodd rhad ac am ddim sy'n galluogi athrawon i greu papur cwestiynau ymarfer unigryw o ddewis o filoedd o gwestiynau o gyn-bapurau CBAC.



ADRAN 05

Dathlu'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr



Gwobrau Arloesedd

Arddangos talent Cymru

Sefydlwyd y Gwobrau Arloesedd yn 1997, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o gydnabod a dathlu'r goreuon o ran creadigrwydd a gwaith dylunio o blith y nifer mawr o fyfyrwyr dawnus sydd gennym yng Nghymru,

Mae'r gwobrau'n darparu llwyfan i ddylunwyr ifanc o Gymru arddangos eu syniadau a phrojectau arloesol, ac i ddod i gysylltiad â phobl allweddol yn y diwydiant.

Ysbrydoli dyfodol dyfeisiadau

Dros y blynyddoedd, mae'r gwobrau wedi dod yn llwybr pwysig ar gyfer meithrin a datblygu'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr, ac maent yn parhau i ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn eu hangerdd am ddylunio a thechnoleg.

Mae enillwyr blaenorol y gwobrau'n cynnwys, Q Misell o Ysgol Bro Edern am ddylunio bin ailgylchu dyfeisgar, Lucy Clarke o Ysgol Howells am ei chymhorthyn ar gyfer ail-lenwi poteli dŵr mawr ac Amy Owen o Ysgol Uwchradd Caerbybi am ei llyfr gweithgareddau rhyngweithiol sy'n annog pobl ifanc i dyfu blodau haul.

Mae'r gwobrau yn annog pobl ifanc yng Nghymru i fod yn dechnolegol arloesol drwy ddyfeisio cynhyrchion a datrysiadau newydd, gan ddefnyddio'r sgiliau maen nhw wedi'u datblygu yn eu dosbarthiadau TGAU, UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg.



Enillydd Cyffredinol 2023
Benjamin Morris
Ysgol Brenin Harri'r VIII, Y Fenni



Enillwyr 2023

23ain Seremoni'r Gwobrau Arloesedd

Dychwelodd y Seremoni Wobrwyo am y 23ain gwaith fis Rhagfyr 2022, ar ôl 2 flynedd heb seremonïau oherwydd y pandemig, lle ymgasglodd myfyrwyr, athrawon a rhieni o ysgolion a cholegau ledled Cymru yn y Pierhead, Bae Caerdydd.

Er gwaethaf yr heriau diamheuol a achoswyd oherwydd y pandemig, roedd yr arloesedd, creadigrwydd a'r dyfalbarhad a ddangoswyd gan y myfyrwyr wedi creu argraff ar y beirniaid. Roedd safon uchel yr ymgeiswyr yn brawf o ba mor uchelgeisiol ac arloesol yw ein myfyrwyr ifanc, sydd wedi bod yn achos gwych ar gyfer dathlu.

Enillodd Benjamin Morris o Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII, Y Fenni y categorïau Safon Uwch a'r Enillydd Cyffredinol eleni gyda'i ddyfais amddiffyn blaen y droed a greodd ar gyfer cricedwyr. Gwnaeth ei waith profi a datblygu argraff fawr ar y beirniad ac roedden nhw'n gweld llawer o werth masnachol i'w gynnyrch.

Edrychwn ymlaen at weld yr hyn sydd i ddod ar gyfer yr ymgeiswyr disglair hyn yn y dyfodol, wrth iddyn nhw barhau i wthio ffiniau arloesedd ac i ddatrys problemau mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ein rhanddeiliaid, wrth ddarparu cyfleoedd i gydnabod ac ysgogi'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr yng Nghymru.



Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac
Addysg

“ Mae safonau uchel yr ymgeiswyr yn enghreifftiau gwych o'r hyn y gall Cymru ei gyflawni drwy wyddoniaeth, technoleg ac arloesedd. Mae'r gwobrau'n dangos talent, brwdfrydedd ac ymrwymiad ein pobl ifanc ledled Cymru. ”

ADRAN 06

Buddsoddi yn ein planed



Gwneud newidiadau i ysgogi dyfodol mwy cynaliadwy

Rydym yn ymwybodol iawn am yr effaith mae ein gweithgareddau'n eu cael ar yr amgylchedd. Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i leihau'r effaith hon, rydym yn cymryd camau i wneud newidiadau cadarnhaol mewn meysydd allweddol.

Un o'r meysydd hyn yw argraffu a phecynnu ein papurau arholiad, sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

Gwneud ein hargraffu yn fwy cynaliadwy

Er mwyn lleihau ein hól troed ecolegol ac i gefnogi arferion cynaliadwy, rydym wedi rhoi sawl mesur ar waith i wneud ein hargraffu yn fwy cynaliadwy.

Er enghraifft, rydym yn prynu'r holl gynhyrchion papur, yn ogystal ag unrhyw eitemau ychwanegol, gan gyflenwyr Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd cymeradwy. Mae hyn yn sicrhau bod y papur a ddefnyddir yn ein cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy a'i fod wedi'i brynu, ei gynhyrchu a'i ddosbarthu'n gyfrifol.

Yn ogystal, mae'r deunyddiau ardystiedig rydym yn eu prynu'n cynnwys papur wedi'i ailgylchu, sy'n lleihau nifer y deunyddiau newydd y mae eu hangen yn y broses gynhyrchu. Mae hyn yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac yn lleihau effaith amgylcheddol ein cynhyrchion.

Ac i fynd hyd yn oed ymhellach o ran ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, rydym yn talu rhywfaint yn ychwanegol am ein pryniannau fel bod cyflenwyr yn plannu coed i wneud iawn am rhywfaint o'r carbon a gynhyrchir yn ystod y broses gynhyrchu.

Drwy fuddsoddi mewn ymdrechion ailgoedwigo, rydym yn helpu i dynnu carbon o'r atmosffer, hyrwyddo bioamrywiaeth a chefnogi cymunedau lleol.



Defnydd pecynnu

Er mwyn lleihau effaith amgylcheddol y defnydd pecynnu sy'n cael ei ddefnyddio i gludo papurau arholiad, rydym yn archwilio'r deunyddiau crai a ddefnyddir, a'r egni a ddefnyddir wrth greu plastig, papur a chardbord.

Er mwyn archwilio dewisiadau amgen i blastig, gwnaethom ymchwilio i wahanol ddefnyddiau, gan ystyried ffactorau megis ansawdd, diogelwch ac effaith amgylcheddol gyffredinol.

Er y cynigiwyd defnyddiau y gellir eu compostio, nid oedden nhw'n bodloni ein gofynion diogelwch ac nid yw rhai ysgolion a cholegau â'r gallu i gompostio defnydd pecynnu, ac roedd allyriadau ychwanegol yn gysylltiedig â dod o hyd i ddefnydd pecynnu y gellir ei gompostio y tu allan i'r DU.

Ar ôl gwaith ymchwil helaeth, nodwyd datrysiad mwy addas: cynyddu cynnwys ailgylchu ein defnydd pecynnu plastig.

Ar hyn o bryd rydym yn cyrchu defnydd pecynnu wedi'i wneud o Bolyethylen Dwysedd Isel (LDPE) sy'n cynnwys hyd at 86% o ddefnydd wedi'i ailgylchu. Defnyddir y defnydd pecynnu LDPE wedi'i ailgylchu ar gyfer bagiau postio allanol yn ogystal â'r bagiau wedi'u selio, sy'n cael eu defnyddio i anfon papurau arholiad a'u dychwelyd ar gyfer marcio.

Yn ogystal â chynyddu defnydd LDPE wedi'i ailgylchu, rydym hefyd wedi dechrau defnyddio dewisiadau amgen o gardbord yn lle defnydd pecynnu plastig lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan ei bod fel arfer yn haws i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol eu hailgylchu. Mae ein defnydd pecynnu cardbord bellach yn cynnwys 70% o ddefnydd wedi'i ailgylchu. Rydym hefyd wedi lleihau nifer ein blychau cardbord ac wedi gwneud ein tâp yn gwbl ailgylchadwy.

Mae lleihau gwastraff a chanolbwyntio ar ddefnydd pecynnu wedi bod yn faes ffocws allweddol i'n corff. Drwy newid maint a siâp ein defnydd pecynnu, roedden ni'n gallu lleihau nifer y defnydd pecynnu a ddefnyddir yn sylweddol, gan ein helpu yn y pen draw i osgoi cofrestru fel 'cynhyrhydd gwastraff'.

Hefyd, drwy leihau echdynnu a chynhyrchu deunyddiau crai, rydym wedi gallu cyfyngu ar yr allyriadau sy'n gysylltiedig â'n cadwyn gyflenwi, gan gyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy.



Credwn fod pob cam bach yn cyfrif wrth greu byd mwy cynaliadwy, a dim ond rhan fach o'n hymdrechion ehangach o ran cynaliadwyedd yw'r mentrau hyn.

Ian Edwards
Cyfarwyddwr Gweithrediadau, CBAC



Arweinwyr cymwysterau y gellir ymddiried ynddynt
Yr holl wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi: Hydref 2023

WJEC CBAC Ltd
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX

T: 029 2026 5000
E: gwybodaeth@cbac.co.uk
G: www.cbac.co.uk

Dilynwch ni ar y canlynol

